Pryfed Peillio *Cymru*
Pollinators *in Wales*

# Beth yw'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government





## Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath yn y DU –

### a bydd tasglu o arbenigwyr o'r diwydiant yn ein helpu i'w roi ar waith

## Lleihau a gwyrdroi'r

### gostyngiad yn nifer y pryfed peillio trwy:

- Ddarparu mwy o amrywiaeth o gynefinoedd llawn blodau
- Cynnal poblogaethau iach a chynaliadwy o bryfed peillio
- Codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth
- Annog pawb i wneud rhywbeth positif
- Datblygu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

## Manteision i'r economi

- Mae 85% o gnwd afalau'r DU a 45% o'r cnwd mefus yn dibynnu ar wenyn
- Mae gwenyn yn cyfrannu £651 miliwn at economi'r DU bob blwyddyn
  Ffynhonnell: Prifysgol Reading
- Mae peillio gan bryfed yn cyfrannu tua £120 biliwn at economi'r byd

## Manteision i bobl

- Mae llefydd sy'n dda i bryfed peillio yn dda i bobl hefyd
- Mae'n bwysig er ein lles ein hunain fod gennym fannau naturiol gwyrdd a'n bod yn dod i gysylltiad â bywyd gwyllt
- Grwndi'r gwenyn yw sŵn yr haf ac mae'n creu ymdeimlad o le

## Manteision i'r amgylchedd

- Yng Nghymru, mae gennym ryw 1,500 o fathau o bryfed peillio, gan gynnwys y Saerwenynen Fawr; dim ond dau le - yn y Gogledd - y mae honno i'w gweld bellach
- Yn y DU, mae 24 rhywogaeth o gacwn, ond dim ond 8 sy'n gyffredin yn y rhan fwyaf o lefydd
- Oherwydd twymo'r ddaear, mae cynefin y cacwn yn prinhau

**Delweddau**
Prif lun: Cardwenynen Feinlais – Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn
Chwith: Steve Rose
Canol: Copor Bach – Vaughn Matthews
Dde: Helophilus – Vaughn Matthews

OGL
WG25745